

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Pwyllgor Moeseg a Safonau

Dyddiad y cyfarfod: 6 Mawrth 2024

Teitl: Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2023/24

Diben yr adroddiad: Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor

Beth mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ei wneud?

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel a ganlyn:-

- hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr
- cynorthwyo'r Cynghorwyr i gadw at y Cod Ymddygiad
- cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad
- monitro gweithredu'r Cod Ymddygiad, a
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd roi gollyngiadau, sy'n caniatáu i Gynghorwyr sydd â buddiant mewn eitem benodol o fusnes y Cyngor barhau i gymryd rhan yn y busnes hwnnw.

Efallai y caiff adroddiadau ymchwilio y mae'r Ombwdsmon neu Swyddog Monitro'r Cyngor wedi'u paratoi ynghylch honiadau bod y Cod Ymddygiad wedi ei dorri eu cyfeirio at y Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y gellir penderfynu yn eu cylch.

Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd y cyfrifoldebau uchod mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion.

Mae enghreifftiau o'r math o waith y mae Pwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion yn ei wneud yn cynnwys:

- cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu deunydd hyfforddi ar y Cod, gan gynnwys siart llif sy'n rhoi crynodeb o'r prif ddarpariaethau
- mynd i'r sesiynau hyfforddi ynghylch y Cod ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned a chymryd rhan ynddynt
- mynd i gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau i arsylwi ar y trafodion
- cyflwyno gweithdrefnau sy'n caniatáu i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd Pwyllgor i gyflwyno cais am ollyngiad yn bersonol
- rhoi cyngor i Gynghorwyr ynglŷn â cheisiadau am ollyngiad

Y Flaenraglen Waith

Bydd Blaenraglen Waith yn eitem sefydlog ar bob un o agendâu'r Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor adolygu a diweddarau rhaglen waith y Pwyllgor.

Mae Blaenraglen Waith ddrafft ynghlwm i'w hystyried (Atodiad 1)

Argymhellion:

1) ystyried, adolygu a diweddarau'r Flaenraglen
Waith ddrafft gyfredol. **(Atodiad 1)**

Enw Cyswllt: Lisa Evans
Swydd: Swyddog Craffu a Safonau
Dyddiad yr adroddiad: 26/2/24
Acronymau: